Cofnodion Pwyllgor Cynllunio a Dibenion Cyffredinol Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd ddydd Mercher, Chwefror 11eg 2009 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 7.00pm

Presennol: Y Cyng Colin Jenkins, y Maer y Cyng Edward Thomas, y Cyng Roy Davies, Christopher Parish, y Dirprwy Faer y Cyng Charlotte Leadbeater, y Cyng Fran Murphy
Roger Phillips (Clerc y Dref.) Des Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau Y Cyng Richard Wallace, y Cyng Dawn Wallace, Julia Jones

Cof 246 / Chwefror / 09 Ceisiadau Cynllunio i'w Penderfynu

E/20464 1x arwydd ffasgia, 1x arwydd totem, 2x byrddau bwydlenni, 6x arwyddion meysydd parcio yn
Cooperative Retail Services Ltd, Heol Rhosmaen.
Sylw : Dim gwrthwynebiad.

Cof 247 / Chwefror/ 09 Nid oedd unrhyw Geisiadau Cynllunio i Benderfynu yn eu Cylch

Cof 248 / Chwefror / 09 Cynllunio wedi ei dynnu'n ôl.

E/20306 Newid i amod 2 cais Cynllunio E/16451 i ganiatáu'r defnydd o ystafell wely ychwanegol ar gyfer gwely a brecwast yn Fronlas, 7 Heol Thomas.

Cof 249 / Chwefror / 09 Nid oedd unrhyw Apeliadau Cynllunio

Cof 250 / Chwefror /09 Materion Cludiant a Phriffyrdd

1. Trevor Sage CSC parth. cynnig i wahardd aros ar unrhyw adeg ar y ddwy ochr o'r adeiladau Banc i sicrhau na fyddai dim rhwystro ar rediad y traffig. Cytunodd y Cyngor â'r cynnig.
2. Adroddodd y Cyng Colin Jenkins fod car Vauxhall Omega estate wedi ei adael yn ofer ar Heol Latimer. Byddai'r Clerc yn cysylltu â Gwasanaethau Stryd CSC i ofyn am ei symud.

Cof 251 / Chwefror / 09 I drafod Digwyddiadau'r Haf ym Mharc Penlan

Rhoddodd y Clerc adroddiad ar gyfarfod y gweithgor a gynhaliwyd ddydd Mawrth 3ydd Chwefror.
Gwnaeth y Gweithgor gymeradwyo Gŵyl Haf, 'Revels in the Park', i'w gynnal ym Mharc Penlan ddydd Sadwrn Mehefin 20fed, yn debyg i Ddathliadau Canmlwyddiant 2008 llwyddiannus a gynhaliwyd yn y Parc.
Byddai plant ysgol lleol yn cymryd rhan yn y Parêd ac yn cael eu hannog i wisgo fyny a byddai band Pres yn arwain y parêd. Byddai sesiwn sgiliau syrcas yn cael ei threfnu i ddifyrru'r plant yn

y Parc. Byddai elusennau yn cael eu gwahodd i ddod â stondinau. Byddai Mr Roy Davies yn trefnu arddangosfa o ffotograffau a dangos DVD o safleoedd treftadaeth lleol.
Roedd Mr Huw Parsons, Swyddog Marchnata CSC wedi cysylltu â'r Cyngor i gynnig i CSC ddod yn bartner ar gyfer trefnu'r digwyddiad.
Roedd y Clerc i gysylltu â Mr Parsons i gadarnhau pa gyfraniad roedd y Cyngor Sir yn barod i'w wneud.
Cynigwyd gan y Cyng Chris Parish ac eiliwyd gan y Cyng Fran Murphy y dylid cymeradwyo'r digwyddiad i'r Cyngor llawn ar yr amod bod CSC yn gallu darparu cymorth a chynhyrchu adroddiad ariannol manwl erbyn cyfarfod Cyllid mis Mawrth. Derbyniwyd y cynnig gyda 5 pleidlais o blaid i un bleidlais yn erbyn.

Cof 252 / Chwefror / 09 Adroddiad y Swyddog Technegol

Gofynnodd y Swyddog Technegol am ganiatâd y Pwyllgor i newid o Lorne Steward i gwmni arall ar gyfer gweithredu gwaith cynnal a chadw ar y system gwres canolog yn Neuadd y Sir. Roedd Lorne Steward yn osgoi cyflawni eu cytundeb. Rhoddwyd caniatâd i Mr Davies ofyn am brisiau eraill. Cytunwyd y byddai'r Swyddog Technegol yn gofyn i'r adeiladydd, Mr Moses, am adroddiad ar ddŵr yn diferyd ar draws wal flaen Neuadd y Sir. Cytunwyd y byddai Mr Davies yn cwrdd â chynrychiolydd o'r Asiantaeth Cefnffyrdd i wneud yn glir pa drefniadau y byddai'n rhaid eu gwneud i fodloni rheoliadau ar gyfer codi goleuadau Nadolig ar hyd Heol Rhosmaen yn 2009.
Cadarnhawyd mai aelodau'r is-grŵp Tân Gwyllt oedd y Cyng Richard Wallace, Cyng Chris Parish, y Maer y Cyng Edward Thomas, Cyng Hugh Towns, Cyng Colin Jenkins a'r Swyddog Technegol. Byddent yn cwrdd ddydd Mawrth, Chwefror 17eg am 7pm. Byddai Mr Geraint Price hefyd yn cael ei wahodd.

Cof 253 / Chwefror /09 Gohebiaeth

1. Alison Roberts, Technegydd Rheoli Traffig, CSC. Parth. Arwyddion twristiaeth. Roedd y Cyngor yn gwybod y byddai'n gyfrifol am yr holl dreuliau. Nodwyd.

2. Phil Grafton, swyddog CSC parth. dyddiad newydd ar gyfer seminar Hyfforddi. Roedd y Clerc i gynnig y 12fed neu'r 19eg o Fawrth.

3. Ian Jones Pennaeth Hamdden CSC parth. Ardaloedd Hamdden Llandeilo. Roedd y Cyngor Sir wedi comisiynu adroddiad ar ardaloedd trwy'r Sir a byddai'n cael ei gwblhau yn hwyrach yn y flwyddyn. Nodwyd.

4. Swyddog Galluogi Tai Gwledig CSC, Lynne Beer. Llythyr cyflwyno. Nodwyd.

5. William Wilkins Associates. Sylwadau ar y dewis o lwybr ar gyfer y Ffordd Osgoi Ddwyreiniol arfaethedig. Nodwyd.

6. Adroddiad Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol 2007-8 LlCC. Nodwyd

Cof 254 / Chwefror / 09 Nid oedd unrhyw faterion eraill .

Daeth y cyfarfod i ben am 8.05pm

Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk